



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Mehefin 2013
Rhifyn 197

Oedfaon y Sul

2 Meh - Bore: **Gweinidog (Cymun)**
Hwyr (5pm): **Uno yn Salem**

9 Meh - Bore a Hwyr: **Y Parchg Ddr John Tudno Williams**

16 Meh - Bore a Hwyr: **Gweinidog -**
Oedfa deulu Sul y Tadau yn y bore

23 Meh - Bore a Hwyr: **Mr Thomas Alun Williams**

30 Meh - Bore a Hwyr: **Y Parchg William Davies**

7 Gorff - Bore : **Gweinidog**
Hwyr (5pm): **Uno yn Salem**

Nos Wener 14 Meh (6 - 8 pm)

Noson Goffi yn y Culfor, Ffordd Bangor

Mynediad drwy docyn (£1)

Yr elw tuag at Seilo a Gisda

Digwyddiadau Mis Mehefin

Nos Lun 3 Meh (5.30pm): **Taith y Gymdeithas Lenyddol i Ben Llŷn**
yng nghwmni John Dilwyn Williams

Dydd Mawrth 4 Meh - (7pm): **Pwyllgor Gwaith Arbennig yr Henaduriaeth**
i drafod y ddogfen ymgynghorol ar ail-strwythuro'r Cyfundeb

Nos Iau 13 Meh (6 - 7.pm) - **Derbyn nwyddau yn y Culfor / Theatr Seilo**
ar gyfer y noson goffi

Nos Wener 14 Meh - **Noson Goffi yn y Culfor, Ffordd Bangor**

Taro Mewn - bob bore Mawrth yn Salem (10 -11am)
Y Gell Weddi - bob dydd Iau (10.30am)

Am newyddion, gwybodaeth a lluniau gweler tudalen Eglwys Seilo ar
www.henaduriaetharfon.org

Am Eiliad

Fe fuoch chitha, fel finna' dwi'n siwr, yn cael blas ar wyllo Eisteddfod yr Urdd ar y teledu yn ddiweddar. Mae'n debyg bod rhai ohonoch wedi ymweld â'r Maes ar gyrion Boncath, Sir Benfro a mwynhau awyrgylch a bwrlwm y gweithgareddau. Ond wedi bod yno neu beidio, cawsom i gyd gyfle i wyllo a gwranddo ar blant ac ieuenctid Cymru yn arddangos eu doniau anhygoel ar lwyfan y brifwyl. A'r fath ddoniau! Yr offerynwyr aeth â'm bryd i, ac allwn i ond rhyfeddu at y safon eithriadol o uchel a gyrhaeddwyd dro ar ôl tro. Gwelwyd y ffliwt a'r corn, y soddgrwth a'r ffidil, y delyn a'r clarinet, a sawl offeryn arall yn bywiogi dan fysedd medrus pobol ifanc dawnus Cymru. Roeddwn wrth fy modd yn gwylio cerddorfa ysgol Bontnewydd yn cyrraedd y brig. Rhaid diolch am ymroddiad y plant ac am gefnogaeth eu rhieni a'u hathrawon.

Mi ddarllenais i'n ddiweddar am gerddorfa tra gwahanol i'r rhai arferol a welwn ar lwyfanau yng Nghymru a thu draw. Cerddorfa o ieuenctid yn ninas Cateura, Paraguay, ardal dlawd yn Lladin America. Mae'r mwyafrif o'r trigolion yn byw ar domen sbwriel enfawr, ac am eu cynhaliaeth yn ailgylchu'r nwyddau a deflir i'r domen. Dyfodol bregus sydd i'r plant a'r ieuenctid gyda gangiau a chyffuriau yn broblem gynyddol.

Un diwrnod canfu gŵr o'r enw Nicolás Gómez ddarn o fetel ynghanol y sbwriel a sylwi bod ei ffurf yn debyg i ffidil. Aeth ati i greu offerynnau cerdd o ddarnau o sbwriel nes bod ganddo ddigon o amrywiaeth i greu cerddorfa. Mae ei gynnyrch yn anhygoel, -

bathodynau, darnau arian, ffyrc, caeadau a thuniau mawr a bach yn cordeddu i greu'r offerynnau cerdd rhyfeddaf a welwyd erioed. Erbyn heddiw mae nifer helaeth o drigolion ifanc Cateura yn dysgu canu'r offerynnau hyn ac mae cerddorfa'r 'Landfill Harmonic' yn teithio i bob rhan o'r byd i ddiddanu cynulleidfaoedd.

"Byddai fy mywyd yn ddiwerth heb gerddoriaeth", meddai un ferch sy'n perthyn i'r gerddorfa. Ac meddai Juan Manuel Chavez, sy'n chwarae soddgrwth wedi ei greu o hen dun olew ac offer cegin,- "mae pobol yn sylweddoli na ddylen nhw daflu ymaith eu sbwriel yn ddifeddwyl. Ddylen ni ddim taflu pobol ymaith chwaith!"

Mae gan bawb ei ddawn, yr hyn sy'n bwysig ydi rhoi cyfle i'r unigolyn ddatblygu'r ddawn honno. Mae plant ac ieuenctid Cymru yn ffodus o'r cyfleon a gânt ar aelwyd ac mewn ysgol a choleg i feithrin eu doniau mewn amrywiol feysydd.

Mawrygwn di, O Dduw,
am bob celfyddyd gain,
am harddwch ffurf a llun,
am bob melyster sain:
ti'r hwn sy'n puro ein dyheu,
bendithia gamp y rhai sy'n creu

W. Rhys Nicholas (CFf 822)

Os ydych am weld a chlywed y gerddorfa yn perfformio, ewch i safle *Landfill Philharmonic* ar y cyfrifiadur. Dwi'n sicr y byddwch, fel finna, yn rhyfeddu at yr hyn a welwch.

Gwenda Richards

Coffâd

Mr Glyn Edwards, 4 Pretoria Terrace Hanai Glyn Edwards o Gaernarfon. Roedd yn un o bump o blant, ac ar wahan i dreulio cyfnod oddi cartref yn ystod yr Ail Ryfel Byd, nid adawodd y dref. Roedd ganddo feddwl y byd o'i dref enedigol a hefyd o gapel Seilo lle bu'n aelod ar hyd ei oes. Byddai wrth ei fodd yn hel atgofion am ei flynyddoedd cynnar yn yr hen gapel Seilo. Bu ef a'i briod yn eithriadol o ffyddlon i Seilo gan fynychu oedfa'r bore yn rheolaidd yn ogystal â chyfarfodydd yr wythnos. Bu'n gymwynaswr hael â Seilo yn ogystal ag elusennau megis Cymdeithas y Bâd Achub a Chymdeithas y Deillion. Diolchwn amdano, a chydymdeimlwn yn ddiffuant â'i deulu yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr hoff.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â **Meleri Thomas** a'r teulu, Bodafon, Ffordd Bangor, wedi iddi golli ei mam yn ddiweddar. Dymunwn fendith Duw arnynt fel teulu yn eu profedigaeth o golli mam a nain oedd yn meddwl y byd ohonynt.

Gwaeledd

Bu sawl aelod o Seilo yn wael yn ystod y mis ac yn ôl ein harfer anfonwn ein dymuniadau da am wellhâd buan iddynt oll. Rydym yn falch o glywed bod **Mrs Mary Land**, Gorwel Môn, Ffordd Bethel a **Mrs Awen Humphreys**, 24 Heol Elinor, wedi dychwelyd adref yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysbyty Eryri.

Da yw deall hefyd bod **Mr William G. Blackwood**, Trem Eryri, Rhosbodrual wedi dychwelyd adref ac yn gwella yn dilyn triniaeth lawfeddygol yn Lerpwl. Mae **Mrs Catherine Jones**, Tegfan, Ffordd Cae Garw, Rhosbodrual a **Mrs Mair Evans**, Gwynle, Ffordd Bethel, bellach wedi symud o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Eryri. Mae **Mrs Kitty Roberts**, Arfryn, 2 Ffordd Eryri, a **Mrs Nell Pritchard**, Cartref Preswyl Gwynfa yn Ysbyty Gwynedd.

Eisteddfod yr Urdd 2013

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Benfro, eleni. Llongyfarchiadau arbennig i'r rhai a lwyddodd i gyrraedd y llwyfan. Dipyn o gamp! Daliwch ati!

Noson Goffi Culfor

Cynhelir Noson Goffi flynyddol Seilo yng nghartref Dr Huw a Beryl Roberts, Culfor, Ffordd Bangor, nos Wener, 14 Mehefin, rhwng 6 ac 8 o'r gloch. Mynediad trwy docyn a'r elw yn cael ei rannu rhwng Seilo a Gisda. Elusen yw Gisda sy'n cynnig lloches a chefnogaeth i bobol ifanc digartref Gwynedd, ac mae'n elusen deilwng iawn i'w chefnogi.

Gofynnir yn garedig am roddion tuag at y byrddau gwerthu - cacennau a chynnyrch cartref, cynnyrch gardd, a nwyddau bron yn newydd. Sylwer na fydd stonidin bric-a-brac eleni. Gellir mynd â'r nwyddau i Theatr Seilo neu i Culfor nos Iau, 13 Mehefin, rhwng 6 a 7 o'r gloch neu i Culfor fore Gwener rhwng 10 ac 11 o'r gloch.

Mae tocynnau ar gael gan chwiorydd yr eglwys.

Cymorth Cristnogol

Diolch i bawb a fu'n casglu o dŷ i dŷ yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol. Llwyddodd Seilo yn unig i gasglu dros £2,400. Ni wyddys beth yw'r cyfanswn terfynnol eto.

Diolch arbennig i Mrs Edwina Morgan am drefnu'r casgliadau eleni.

Blodau'r Cysegr

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am y blodau yn Seilo yn ysod mis Mehefin:

Mrs Peggy Rowlands (2)

Mrs Beryl Roberts (9)

Mrs Gwen Davidson-Norrie (16)

Mrs Ann Hughes (23)

Meirion a Kelly Parry (30)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i law erbyn Mehefin 20fed

Cynhadledd y G8 yn Belfast

Cynhelir Cynhadledd y G8 yn ninas Belfast 17 - 19 Mehefin eleni.

Dydd Sadwrn 14 Mehefin trefnir protest heddychlon i gefnogi ymgyrch 'OS' Cymorth Cristnogol. Trefnir taith i gefnogi'r brotest.

Am ragor o fanylion cysyllter â'r Gweinidog neu Anna Jane Evans.

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435

Golygydd: Mrs Angharad Williams 674865

